Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Dogfen Fframwaith

Cynnnwys

	Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor	3
1	Cyflwyniad	4
2	Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd	6
3	Gwasanaethu defnyddwyr tribiwnlysoedd	7
4	Perthynas â sefydliadau eraill	8
5	Y berthynas â'r Farnwriaeth	9
6	Atebolrwydd	10
7	Atebolrwydd i'r Senedd	12
8	Trefniadau ariannol	13
9	Cynllunio, rheoli perfformiad a monitro	15
10	Archwilio	16
11	Gwasanaethau Cefnogi	18
12	Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol	19
13	Adnoddau'r Gweithlu	20
14	Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth	22
15	Adolygu ac amrywio'r Ddogfen Fframwaith	24
	Atodiad 1	25
	Atodiad 2	26

Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor

Ers dod i'r adran hon yn 2003 rwyf wedi goruchwylio rhaglen o ddiwygiadau radical yn y system gyfiawnder. Mae sefydlu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn garreg filltir bwysig yn y broses hon. Dyma'r diwygiadau mawr cyntaf i'r system dribiwnlysoedd ers dros hanner canrif. Am y tro cyntaf erioed rydym yn dod â'r gwaith o weinyddu pob un o brif dribiwnlysoedd y llywodraeth ganolog at ei gilydd mewn un sefydliad.

Rwy'n gweld y diwygiadau hyn fel rhan bwysig o nod fy Adran i wella gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae tribiwnlysoedd yn gallu ymddangos fel rhan o'r system gyfiawnder sydd wedi ei hesgeuluso, ond maent yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Maent yn cynnig ffordd o unioni cam i rai o'r bobl hawddaf i'w niweidio sydd yn ein cymdeithas, a hynny ar faterion sy'n cael dylanwad mawr ar fywydau unigolion: cyflogaeth, budd-daliadau lles, lloches, anghenion addysgol arbennig ac iechyd meddwl, i enwi ond ychydig.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn dod â chydlyniaeth i faes sydd hyd yn hyn wedi bod yn anghydweddol ac yn gymhleth iawn, fel y canfu adolygiad Syr Andrew Leggatt o dribiwnlysoedd yn 2001. Fel un corff, bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gallu dod â mwy o gysondeb i'r system hon o ran safonau ac effeithlonrwydd, gan gynnig gwasanaeth mwy ymatebol sydd â ffocws pendant i ddefnyddwyr, a threfniadau darbodus i drethdalwyr.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r amcanion a nodwyd ym Mhapur Gwyn Gorffennaf 2004 'Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus: Cwynion, Unioni Cam a Thribiwnlysoedd' drwy sefydlu prosiectau peilot dyfeisgar er mwyn canfod ffyrdd gwahanol o ddatrys anghydfodau a gwella ansawdd y penderfyniadau gwreiddiol.

Bydd y datblygiad hwn yn cyflwyno manteision sylweddol a pharhaol i gymunedau a defnyddwyr tribiwnlysoedd. Rwy'n dymuno'n dda i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd newydd, ei staff, a'r farnwriaeth â'r fenter newydd hon, gan wybod y byddant yn ymrwymo i'w gweithredu yn llawn brwdfrydedd.

Yr Arglwydd Falconer o Thoroton

Yr Arglwydd Ganghellor

1 Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC). Mae Prif Weithredwr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd (y cyfeirir ato hefyd yn y ddogfen hon fel 'yr asiantaeth') yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor am weithredu'r asiantaeth yn effeithiol.

Mae'r asiantaeth yn darparu cefnogaeth i'r farnwriaeth ac i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau bod y tribiwnlysoedd a weinyddir ganddi'n gweithredu'n ddiduedd ac yn effeithlon. Fel y nodwyd yn ei ddatganiad i Dŷ'r Arglwyddi ar 26 Ionawr 2004, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi ymrwymo i gynnal annibyniaeth y farnwriaeth a sicrhau ei bod yn cael ei chefnogi gan system weinyddol effeithlon ac effeithiol.

Fel un o brif ganghennau darparu gwasanaeth yr AMC, mae gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ran bwysig yn y gwaith o roi agenda'r Arglwydd Ganghellor ar gyfer system gyfiawnder fodern ar waith. Mae'n gweithio ar y cyd ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Llywodraeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Prif Weithredwr yn gosod strategaeth a fframwaith perfformiad sy'n cynnig her, ac sy'n cefnogi amcanion strategaeth 5 mlynedd a Chytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC. Mae'n cael ei gefnogi gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol sy'n darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol i'r asiantaeth.

Ffurfiwyd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd drwy ddod â'r tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweinyddu'n barod gan yr AMC a phum tribiwnlys arall o wahanol rannau o'r Llywodraeth at ei gilydd. Y pum tribiwnlys hyn oedd: y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, y Gwasanaeth Apeliadau, Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl, Tribiwnlysoedd Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd a'r Panel Apeliadau Iawndal Anafiadau Troseddol. Bwriedir cael rhagor o dribiwnlysoedd i ymuno â'r Gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, a chreu tribiwnlysoedd newydd o fewn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Ceir rhestr lawn o aelodau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn 2006 yn Atodiad 2.

Mae rhai o awdurdodaethau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, tra bo eraill yn ymwneud â Phrydain Fawr, ac eraill â Lloegr yn unig.

Canolfannau Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn y Deyrnas Unedig

2 Pwrpas, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Pwrpas

Prif dasgau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yw:

- darparu gweinyddiaeth ymatebol ac effeithlon i'r tribiwnlysoedd
- helpu i wella ansawdd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ym mhob rhan o'r llywodraeth
- diwygio system gyfiawnder y tribiwnlysoedd er budd ei chwsmeriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol, a
- hybu a sicrhau annibyniaeth y farnwriaeth.

Gweledigaeth

Wrth gyflawni'n prif dasgau rydym yn ceisio bod yn sefydliad modern, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn darparu perfformiad rhagorol wrth wella ansawdd y penderfyniadau gwreiddiol sy'n cael eu gwneud a datrys anghydfodau mewn tribiwnlysoedd. Byddwn yn:

- gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r farnwriaeth ac eraill
- codi safonau y penderfyniadau gwreiddiol sy'n cael eu gwneud
- defnyddio dulliau creadigol ac arloesol er mwyn trawsnewid y gwasanaeth a ddarperir
- rhoi cyfle i gwsmeriaid ddewis, lle bo hynny'n bosibl, sut y maent am ddefnyddio gwasanaethau
- cysylltu â phawb – y staff, y cwsmeriaid a'r rhanddeiliaid – yn ystod pob cam o'r busnes, a
- gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

Gwerthoedd

Fel yr AMC yn gyffredinol byddwn yn gwerthfawrogi:

- cwsmeriaid – yn rhoi'n cwsmeriaid yn gyntaf
- cyrhaeddiad – yn gwerthfawrogi ein pobl a'u cyfraniad tuag at ddarparu gwasanaeth a gwneud y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn lle y mae pobl yn falch o weithio ynddo
- arweiniad a gwaith tîm – yn rhoi i bobl y rhyddid a'r gefnogaeth i lwyddo
- cyfrifoldeb personol – cyflawni addewidion a gwneud gwahaniaeth, ac
- amrywiaeth – cydnabod ein bod i gyd yn wahanol.

3 Gwasanaethu defnyddwyr tribiwnlysoedd

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi ymrwymo i'r egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus canlynol:

- safonau uchel o ran darparu gwasanaeth
- gwella a datblygu gwasanaethau yn barhaus
- hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd
- ehangu'r dewis wrth ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd.

Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn, mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i bob defnyddiwr. Mae gwasanaethau sydd ar gael yn hwylus ac a werthfawrogir gan eu defnyddwyr yn hanfodol i system gyfiawnder fodern.

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gwerthfawrogi barn pob un sy'n defnyddio ei wasanaethau a bydd yn gweithio gyda holl ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd mewn modd agored ac ymgynghorol.

Mae'r asiantaeth yn cynnal arolygon rheolaidd fel rhan o'i system monitro perfformiad. Mae'n defnyddio canlyniadau'r cyfryw drafodaethau ac arolygon i osod safonau ac ymestyn a gwella rhagor ar y gwasanaeth y mae'n ei gynnig i ddiwallu anghenion ei ddefnyddwyr. Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn monitro pob sylw a chŵyn a dderbynia ac yn ceisio ymateb yn adeiladol yn unol â threfn gwyno gyhoeddedig.

Gosodir targedau ar gyfer cyflawni lefelau penodol o berfformiad a gwasanaeth ym mhob un o feysydd gwaith yr asiantaeth. Cyhoeddir targedau allweddol yng nghynlluniau'r asiantaeth ac adroddir arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r Bwrdd Rheoli'n sicrhau bod targedau a lefelau perfformiad yn cael eu cyrraedd a bod gwasanaeth rhagorol yn cael ei ddarparu i'r defnyddwyr.

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi ymrwymo i geisio am statws Nod Siarter.

4 Perthynas â sefydliadau eraill

Roedd y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cael eu gweinyddu gan yr AMC cyn lansio'r Gwasanaeth. Mae'r berthynas rhwng y tribiwnlysoedd hyn a'r cyrff perthynol sy'n gwneud y penderfyniadau cychwynnol, ac adrannau eraill o'r llywodraeth, wedi ei sefydlu ers tro ac maent yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd. Mae amlder a natur y cysylltiad hwn wedi ei deilwrio ar gyfer anghenion unigol yr awdurdodaethau perthynol.

Trosglwyddwyd pum tribiwnlys i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn Ebrill 2006 o adrannau eraill o fewn y llywodraeth. Cytunodd Gweinidogion yr AMC, y Swyddfa Gartref, yr Adran Masnach a Diwydiant, yr Adran Iechyd a'r Adran Gwaith a Phensiynau i drosglwyddo cyfrifoldebau deddfwriaethol a gweinyddol ac adnoddau mewn perthynas ag awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd hyn a chyfrifoldebau polisi parhaus yr adrannau noddi blaenorol.

Nodir y strwythurau a'r prosesau ar gyfer cynnal y berthynas rhwng y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ac adrannau noddi blaenorol y pum tribiwnlys a drosglwyddwyd mewn Cytundebau Partneriaeth. Mae'r rhain yn nodi'r broses ryngweithio ar gyfer llunio a newid polisi, gwneud penderfyniadau cychwynnol ac adolygiadau effeithiol gan dribiwnlysoedd.

Mae Cytundebau Partneriaeth yn sicrhau bod perthynas agos a strwythuredig yn cael ei chynnal rhwng y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, yr AMC a'r Adrannau hynny o'r Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb polisi am wneud penderfyniadau a deddfwriaethu mewn perthynas â phenderfyniadau y mae hawl apelio yn eu cylch yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Cynigion Polisi Newydd

Mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar yr Asesiadau o Effaith Rheoliadau yn tynnu sylw adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n ystyried cynigion polisi newydd a allai effeithio ar dribiwnlysoedd, at y ffaith fod angen cysylltu â'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Pwrpas hyn yw sicrhau eu bod wedi ystyried yr holl gostau posibl a allai godi a'u bod wedi ystyried y trefniadau apelio mwyaf priodol.

Roedd yr ad-drefnu o fewn Grŵp Tribiwnlysoedd yr Adran Materion Cyfansoddiadol, a ddigwyddodd ochr yn ochr â chreu asiantaeth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, yn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo o bolisi newydd arfaethedig neu estyniad i awdurdodaeth tribiwnlys, i weithredu'n ymarferol.

Y Gweinyddiaethau Datganoledig

Mae'r cyfrifoldeb am weinyddu tribiwnlysoedd datganoledig yn aros yn nwylo'r weinyddiaeth berthnasol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Bydd cyfathrebu manwl â'r gweinyddiaethau datganoledig ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth neu bolisi sy'n rheoli tribiwnlysoedd.

Y Cyngor Tribiwnlysoedd

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cydweithredu â'r Cyngor Tribiwnlysoedd ac yn darparu cymorth a gwybodaeth y mae ar y Cyngor eu hangen er mwyn:

- cyflawni ei swyddogaeth statudol o adolygu, a chyflwyno adroddiadau, ar gyfansoddiad a gwaith y tribiwnlysoedd a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau, a
- rhoi cyngor i'r asiantaeth ynglŷn â gwaith y tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweinyddu gan yr asiantaeth.

Er mwyn cyflawni'r amcanion, gwahoddir y Cyngor hefyd i ddarparu aelodau i eistedd ar fyrddau a phwyllgorau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno.

5 Y berthynas â'r Farnwriaeth

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal perthynas dda â phob aelod o farnwriaeth y tribiwnlysoedd.

Yr Uwch Lywydd

Enwebir Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr â chydsyniad yr Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn ac Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon. Pan sefydlwyd yr asiantaeth nid oedd swydd yr Uwch Lywydd yn rôl statudol.

Yn amodol ar gyfrifoldebau statudol llywyddion tribiwnlysoedd, rôl yr Uwch Lywydd yw cynrychioli a darparu arweiniad strategol i farnwriaeth y tribiwnlysoedd, a chydgysylltu a chyfarwyddo cyfraniadau barnwrol tuag at ddatblygiad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Bydd y Prif Weithredwr yn:

(a) cynorthwyo'r farnwriaeth i gyflawni ei swyddogaethau barnwrol a rheolaethol

(b) gweithio mewn cysylltiad agos â'r farnwriaeth er mwyn datblygu a gweithredu newidiadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar y ffordd y mae tribiwnlysoedd yn gweithio, ac

(c) ymgynghori'n llawn â'r farnwriaeth ynglŷn â phob mater arall y mae gan y farnwriaeth ddiddordeb cyfreithlon ynddo a pheidio â gweithredu unrhyw newidiadau hyd nes y bo'r ymgynghoriad wedi ei gynnal.

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn darparu cefnogaeth briodol i farnwriaeth y tribiwnlysoedd gan gynnwys yr Uwch Lywydd. Mae'r Prif Weithredwr a'i staff yn gweithio gyda deiliaid swyddi barnwrol ym mhob tribiwnlys er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau perthynol.

Mae'r Prif Weithredwr yn sicrhau bod holl weithgareddau'r asiantaeth yn cael eu cynnal yn unol â dyletswyddau a phwerau statudol yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw gytundebau sydd wedi eu gwneud rhwng yr Arglwydd Ganghellor, y Prif Ustusiaid, yr Uwch Lywydd a llywyddion tribiwnlysoedd.

Adnoddau

Wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, bydd y Prif Weithredwr yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol. Bydd y Prif Weithredwr yn cynnal o leiaf ddwy drafodaeth ddwy ffordd ar wahân yn ystod y flwyddyn â chynrychiolwyr barnwriaeth y tribiwnlysoedd, gan roi cyfle iddynt fynegi eu barn ynglŷn â'r gwaith o gynllunio faint o adnoddau fydd ar gael i'r asiantaeth yn y dyfodol.

Trafodir Cynllun Busnes blynyddol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gyda'r Uwch Lywydd, ynghyd â chynlluniau ar gyfer delio gydag unrhyw newid mawr ar ganol blwyddyn yn yr adnoddau a ddyrannwyd a allai effeithio'n ymarferol ar berfformiad yr asiantaeth.

Bydd y Prif Weithredwr yn ymgynghori ag uwch aelodau priodol o farnwriaeth y tribiwnlysoedd ynglŷn ag unrhyw gynigion i ad-drefnu strwythurau rheoli lleol neu ranbarthol neu leoliad canolfannau gwrandawiadau.

Hyfforddiant Barnwrol

Mae'r Uwch Lywydd a llywyddion awdurdodaethau'n gyfrifol am hyfforddiant barnwrol mewn tribiwnlysoedd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn cynllunio, rheoli a chyflwyno'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer y farnwriaeth ac aelodau o baneli mewn tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Penodiadau Barnwrol

Bydd barnwriaeth y tribiwnlysoedd yn gweithio gyda staff y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau bod rhagolygon blynyddol cadarn yn ymwneud â'r penodiadau barnwrol y bydd angen eu gwneud yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn y dyfodol yn cael eu paratoi.

6 Atebolrwydd

Yr Arglwydd Ganghellor

Mae'r Arglwydd Ganghellor yn atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Mae'n penodi Prif Weithredwr i reoli'r asiantaeth ac yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr, drwy'r Ysgrifennydd Parhaol, y cyfrifoldeb am gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Arglwydd Ganghellor yn dyrannu adnoddau i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ac yn cymeradwyo pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd yr asiantaeth, yn ogystal â'i Chynllun Strategol a'i Chynllun Busnes blynyddol, ac yn gosod y targedau perfformiad blynyddol y mae'n ofynnol i'r asiantaeth eu cyrraedd. Darperir adroddiadau rheolaidd am berfformiad ar sail y cynlluniau a'r targedau hyn i'r Arglwydd Ganghellor. Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor yn ymyrryd fel rheol yn y gwaith o reoli'r asiantaeth o ddydd i ddydd, ond bydd yn disgwyl i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag ef ynglŷn â sut y mae'n delio â materion gweithredol a allai arwain at bryderon cyhoeddus, Seneddol neu farnwrol sylweddol. Cynhelir o leiaf un cyfarfod ffurfiol y flwyddyn rhwng Gweinidogion a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i drafod perfformiad a chynlluniau'r asiantaeth. Bydd gan y Prif Weithredwr hawl i gysylltu â'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb pan fo angen.

Yr Ysgrifennydd Parhaol

Yr Ysgrifennydd Parhaol, fel pennaeth parhaol yr AMC, yw prif gynghorydd yr Adran ar gyfer Gweinidogion ar faterion sy'n effeithio ar yr Adran yn gyffredinol, gan gynnwys gwariant a dyrannu adnoddau.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gynghori'r Arglwydd Ganghellor ynglŷn â dyrannu adnoddau adrannol, ynglŷn â Dogfen Fframwaith y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ac, ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr, ynglŷn â gosod targedau perfformiad ariannol ac anariannol priodol i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gefnogi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd er mwyn iddo allu sicrhau bod cyfeiriad strategol a rheolaeth strategol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gweithredu yng nghyd-destun amcanion adrannol neu draws-lywodraethol ehangach. Yn fwyaf arbennig, mae'n gyfrifol am sicrhau bod pwrpas, gweledigaeth a nodau'r asiantaeth yn cefnogi Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus a nodau strategol ehangach yr Adran.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gytuno ar y fframwaith rheoli perfformiad strategol ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Cefnogir yr Ysgrifennydd Parhaol â'r cyfrifoldebau hyn gan dîm rheoli perfformiad o fewn yr Adran Materion Cyfansoddiadol, sy'n ceisio sicrhau rheolaeth perfformiad drwy gyfrwng cerdyn sgorio cytbwys fel bod yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn gallu canfod sut mae'r asiantaeth yn perfformio. Mae hefyd yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyfarfodydd perfformiad gyda'r Prif Weithredwr i gefnogi cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol.

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r AMC ac mae'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth ariannol o safon uchel yn yr adran yn gyffredinol ac, yn fwyaf arbennig, bydd rhaid iddo fod yn fodlon bod gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd systemau a gweithdrefnau ariannol digonol ar waith er mwyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn effeithlon a darbodus, a hefyd er mwyn diogelu rheoleidd-dra a phriodoldeb ariannol. Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd gyfrifoldeb trosfwaol am reoli risg, cadw trefn a llywodraethu.

Y Prif Weithredwr

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor drwy'r Ysgrifennydd Parhaol am reoli'r asiantaeth o ddydd i ddydd mewn modd effeithiol, effeithlon a darbodus. Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol yn bersonol am warchod yr arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt ac am sicrhau priodoldeb a chysondeb wrth ddelio gyda'r arian cyhoeddus hyn. Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cyfrifyddu'r Llywodraeth ac unrhyw ganllawiau cyffredinol a gyhoeddir gan y Trysorlys, Swyddfa'r Cabinet a'r AMC.

Yn fwyaf arbennig, bydd y Prif Weithredwr yn:

- rhoi cyngor ynglŷn â goblygiadau gwybodaeth perfformiad strategol
- rhoi cyngor ynglŷn â'r cyllid a'r adnoddau y mae ar y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd eu hangen er mwyn sicrhau'r canlyniadau cytunedig
- sicrhau bod y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni amcanion a Chytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC; ac amcanion adrannau eraill y llywodraeth sy'n effeithio ar gyflwyno cyfiawnder drwy dribiwnlysoedd
- sicrhau bod gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd y dirprwyaethau a'r awdurdodau gofynnol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus
- sefydlu polisïau cenedlaethol a strategaeth busnes yr asiantaeth
- llunio a monitro fframwaith perfformiad sy'n cynnig her
- sefydlu fframwaith ar gyfer dyrannu adnoddau o fewn fframwaith gwariant cyffredinol yr asiantaeth
- sicrhau bod partneriaethau cryf yn cael eu sefydlu gyda barnwriaeth y tribiwnlysoedd a bod yr asiantaeth yn parchu eu hannibyniaeth farnwrol
- sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb o du'r asiantaeth wrth ddelio gydag arian cyhoeddus
- sefydlu arferion rheoli risg a llywodraethu corfforaethol cadarn
- sicrhau bod cyfrifon archwiliedig yn cael eu paratoi ac yna'u harwyddo
- sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a gweithredu trefn gwyno effeithiol, a
- sicrhau bod argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cyfansoddiadol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau seneddol eraill a dderbynnir gan y Llywodraeth a'u hysbysu i'r Prif Weithredwr yn cael eu rhoi ar waith a chan ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Ysgrifennydd Parhaol ar y cynnydd a wneir o ran cydymffurfio â'r argymhellion hynny.

7 Atebolrwydd i'r Senedd

Pwyllgorau Seneddol

Gellir gwysio'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Parhaol i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'u cyfrifoldebau perthynol fel Swyddogion Cyfrifyddu. Rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cyfansoddiadol yw archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Adran Materion Cyfansoddiadol, gan gynnwys y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, a gall gynnal sesiynau tystiolaeth. Gall y pwyllgor ofyn am unigolion enwebedig, ond y Gweinidog yn y pen draw fydd yn penderfynu pwy ddylai ymddangos. Os mai pwnc y gwrandawiad yw gweithrediad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd, bydd y Gweinidog fel rheol yn gwahodd y Prif Weithredwr i fod yn bresennol.

Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth

Bydd gwaith gweinyddol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn rhwym wrth awdurdodaeth y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog yr adran i bwrpas atgyfeiriadau i'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth, ond bydd yn dirprwyo cyfrifoldeb dros adrodd ar faterion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, a'u hateb, i'r Prif Weithredwr.

Cwestiynau Seneddol a Gohebiaeth Seneddol

Bydd yr Arglwydd Ganghellor, neu'r Gweinidog ieuaf perthnasol, fel rheol yn ymateb yn bersonol i gwestiynau seneddol a gyfeirir atynt gan Aelod Seneddol (AS) neu Arglwydd. Mae'r un peth yn wir ar gyfer gohebiaeth oddi wrth Aelodau Seneddol neu Arglwyddi. Gall Aelodau Seneddol ac Arglwyddi ysgrifennu at y Prif Weithredwr yn hytrach na'r Arglwydd Ganghellor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â gweithrediad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r Aelodau Seneddol a'r Arglwyddi yn ysgrifennu'n uniongyrchol at weinidogion yr AMC.

8 Trefniadau Ariannol

Dirprwyaethau Ariannol

Nodir y trefniadau dirprwyo ariannol ar gyfer y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth yn Atodiad 1.

Mae pob agwedd ar gynllunio, cyllid a rheolaeth o fewn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn digwydd yn unol â chylch adolygu gwariant y Llywodraeth ac o fewn unrhyw amserlen bellach y cytunir arni gyda'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r asiantaeth yn rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol ac mae ei chynlluniau yn cefnogi nodau ac amcanion yr Adran a'r Llywodraeth.

Cyllidir y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd fel rhan o Derfyn Gwariant Adrannol cyffredinol yr AMC . Gellir adolygu'r dirprwyaethau ariannol i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yng nghyd-destun ei Gynllun Strategol a chytunir arnynt gan Fwrdd Rheoli Adrannol a Bwrdd Gweithredu Gweinidogaethol yr AMC. Bydd y Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr yn negodi ar y cyd gyda Thrysorlys EM mewn perthynas ag unrhyw ddirprwyaethau newydd neu newidiadau i ddirprwyaethau cyfredol.

Yn amodol ar weithdrefnau cyflenwi safonol y llywodraeth, mae gan y Prif Weithredwr awdurdod i gymeradwyo pob gwariant o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol sy'n gyson â'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Busnes. Mae gan y Prif Weithredwr hefyd awdurdod i gymeradwyo unrhyw Wariant a Reolir yn Flynyddol a ddarperir gan Drysorlys EM ac sy'n gyson â chynlluniau'r asiantaeth.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol am y gwariant ar weithrediad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wrth iddo ddarparu'i wasanaethau. Rhaid i'r Prif Weithredwr fod yn fodlon fod gan y gwariant ar wasanaethau y mae'r AMC yn eu darparu i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd (ac nad ydynt felly o fewn yr asiantaeth) systemau rheoli effeithiol gan gynnwys systemau rheoli a monitro ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gallu rhoi cyfrif am ei asedau.

Bydd y Prif Weithredwr yn dilyn yr arweiniad ar drin colledion a thaliadau arbennig a nodir yn Cyfrifyddu'r Llywodraeth a Llawlyfr Cyllid yr AMC. Mae gan y Prif Weithredwr derfynau dirprwyedig ar gyfer awdurdodi colledion i'w dileu a gwneud taliadau arbennig na fydd yn mynd y tu hwnt iddynt ar unrhyw un achlysur. Dylid cyfeirio unrhyw hawliadau y mae eu gwerth y tu hwnt i'r terfynau hyn at Gyllid Corfforaethol yr AMC.

Awdurdodau Dirprwyedig

Mae gan y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, hawl i gymeradwyo pob eitem o wariant, defnyddio derbynebau, gosod contractau, dileu colledion a gwneud taliadau arbennig sydd o fewn darpariaethau'r ddogfen hon ac sy'n gyson â chynlluniau'r asiantaeth.

Dirprwyaethau Mewnol

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo i Gyfarwyddwyr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ac i reolwyr llinell eraill awdurdod i brynu nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys gweithlu, talu anfonebau a defnyddio derbynebau, os bernir bod angen hynny, o fewn yr anghenion am reolaeth a phriodoldeb ariannol. Dyrennir cyllid ar ffurf cyllidebau ffurfiol i benaethiaid yr unedau busnes perthnasol, a fydd yn gyfrifol yn bersonol am sicrhau bod eu gwariant yn gyson â pholisïau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a chwmpasiad pleidlais yr AMC. Bydd awdurdodau dirprwyedig wedi eu diffinio'n glir mewn llawlyfr cyllid neu gyfarwyddiadau cyfatebol, a byddant yn gyson â rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth a'r polisïau cyfrifyddu mewnol a bennwyd gan y Prif Weithredwr.

Rheolau Cyfrifyddu Cyffredinol

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn rhwym wrth y rheolau a'r polisïau a bennwyd gan Drysorlys EM yn Cyfrifyddu'r Llywodraeth a chyfarwyddiadau cyfrifyddu eraill a gyhoeddir o bryd i'w gilydd.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am gynhyrchu ac arwyddo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon archwiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol; sy'n cynnwys:

- adolygiad o weithgareddau'r asiantaeth yn ystod y flwyddyn
- perfformiad yn erbyn targedau allweddol ac yn erbyn y Cynllun Busnes blynyddol
- sefyllfa ariannol yr asiantaeth;
- Datganiad yr asiantaeth ar Reolaeth Fewnol, ac
- unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani o bryd i'w gilydd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys set o gyfrifon ariannol blynyddol yn seiliedig ar groniadau. Cynhyrchir y cyfrifon yn unol â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM dan Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac fe'u harchwilir gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol gerbron y Senedd.

Cynhwysir gwybodaeth am berfformiad yn erbyn targedau perfformiad allweddol yn y nodiadau ar gyfer y cyfrifon. Mae'r wybodaeth hon yn rhan o gwmpas archwiliad y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol.

Y bwriad fydd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar sail amserlen sy'n caniatáu i'r AMC gyhoeddi Cyfrifon Adnoddau Cyfunol cyn dechrau toriad yr haf yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi.

Ffioedd

Gall y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd godi ffioedd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth sy'n ei reoli. Mae polisi ar godi tâl a chyfrifyddu ar gyfer unrhyw ffioedd a gesglir gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn fater y mae angen i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r AMC gytuno arno a dylai ddilyn y canllawiau cyfredol ar ffioedd a chodi tâl a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

9 Cynllunio, rheoli perfformiad a monitro

Mae pob agwedd ar gynllunio, cyllid a rheolaeth yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn digwydd yn unol â chylch gwariant cyhoeddus y Llywodraeth ac yn cael eu datblygu fel rhan o Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC. Ceir hefyd agwedd gydgysylltiedig at gynllunio gydag adrannau ac asiantaethau eraill y mae eu gweithgareddau'n effeithio ar y system dribiwnlysoedd.

Bydd amseriad a maint unrhyw adolygiadau o'r asiantaeth yn cael eu penderfynu yng nghyd-destun y broses Adolygu Gwariant a chylch cynllunio busnes yr AMC. Bydd Cynllun Strategol a Chynllun Busnes y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ystyried argymhellion unrhyw adolygiadau o'r AMC neu adolygiadau ehangach o fewn y system gyfiawnder sy'n effeithio ar yr asiantaeth.

Dangosyddion Perfformiad

Mae'r asiantaeth yn anelu at gyrraedd unrhyw dargedau a osodwyd ar ei chyfer yng Nghytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn pennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau blynyddol eraill ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Cynllun y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Bob blwyddyn bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cynhyrchu cynllun a fydd yn nodi gweithgareddau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a bydd yn cynnwys strategaeth amlinellol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Cyflwynir y cynllun i'r Arglwydd Ganghellor i gael ei gymeradwyo.

Bydd y cynllun yn cynnwys:

- blaenoriaethau a rhaglen waith am y flwyddyn
- tybiaethau allweddol ynglŷn â'r llwyth gwaith a'r adnoddau sydd ar gael
- y targedau sydd i'w cyrraedd ar sail dangosyddion perfformiad allweddol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, a
- dangosyddion atodol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'u targedau.

Lle cedwir diddordeb polisi y mae cynlluniau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn effeithio arno gan un arall o adrannau'r llywodraeth, bydd angen cyfathrebu ynglŷn â'r agwedd honno ar y cynlluniau drwy drefniadau dwy ffordd cytunedig.

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r Cynllun Busnes i'r Arglwydd Ganghellor mewn ffurf ddrafft i gael ei gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Cyhoeddir y Cynllun Busnes yn flynyddol. Y nod fydd cyhoeddi'r Cynllun Busnes a'r Cynllun Strategol cyn y flwyddyn neu'r blynyddoedd ariannol y maent yn ymwneud â hwy.

Os oes newidiadau mawr annisgwyl i dybiaethau gweithredu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r Cynllun Busnes ar ganol blwyddyn ariannol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno newidiadau arfaethedig i gynlluniau i'r Arglwydd Ganghellor i gael eu cymeradwyo.

Adrodd am Berfformiad

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu derbyn gan fyrddau'r AMC, ar sail gytunedig, am:

- berfformiad o gymharu â thargedau allweddol a safonau gwasanaeth
- gwariant o gymharu â'r ddarpariaeth
- lefelau staffio, a
- materion eraill y gall yr Arglwydd Ganghellor ofyn yn benodol amdanynt.

Rheoli Risg

Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod asesiad ffurfiol o reoli risg yn rhan o waith y Gwasanaeth er mwyn cefnogi ei Ddatganiad blynyddol ar Reolaeth Fewnol. Mae egwyddorion y fframwaith yn dilyn strategaeth yr AMC ar gyfer rheoli risg.

10 Archwilio

Archwilio Mewnol

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol o fewn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Gellir defnyddio Adran Archwilio Mewnol yr AMC neu archwilwyr eraill gyhyd ag y darperir y gwasanaeth yn unol â'r safonau a'r arfer gorau a bennir gan Drysorlys EM, ac yn fwyaf arbennig, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth.
Mae gan Adran Archwilio Mewnol yr AMC hawl mynediad i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i gefnogi cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r hawl mynediad hon yn berthnasol hefyd i unrhyw archwilwyr mewnol eraill a ddefnyddir, gan gynnwys os yw'r gwasanaeth yn cael ei osod ar gontract.

Y Pwyllgor Archwilio

Penodir Pwyllgor Archwilio annibynnol i gefnogi'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, wrth iddo fonitro systemau llywodraethu corfforaethol, risg a rheoli'r asiantaeth. Mae gan y Pwyllgor Archwilio gadeirydd anweithredol ac aelodaeth a swyddogaethau sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar godau ymarfer ar gyfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus a chanllawiau Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynghori Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth ynglŷn â'r canlynol:

- prosesau strategol ar gyfer rheolaeth, llywodraethu a rheoli risg
- polisïau cyfrifyddu a chyfrifon y sefydliad
- gweithgarwch a gynllunnir a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol
- digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a glustnodwyd trwy'r gweithgarwch archwilio
- sicrwydd sy'n ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad
- (lle bo'n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio
- y gwasanaethau a ddarperir i'r asiantaeth, yn ogystal ag effaith unrhyw raglenni neu brosiectau yr ymgymerir â hwy naill ai ar y cyd neu y tu allan i'r asiantaeth (h.y. gan yr AMC neu unrhyw sefydliad arall), a
- canlyniad ymchwiliadau ar unrhyw fater a ddygwyd i'w sylw, o fewn cwmpas ei ddyletswyddau.

Bydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cynnal trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda Phwyllgor Archwilio Corfforaethol yr AMC ar drefniadau llywodraethu, rheolaeth a rheoli risg. Bydd hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion pwyllgorau archwilio'r Adran i drafod materion o gyd-ddiddordeb a darparu cofnodion Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i'r Pwyllgor Archwilio Corfforaethol.

Archwilio Allanol

Mae'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilio gwariant ac incwm yr asiantaeth, yn edrych ar eu rheoleidd-dra a'u priodoldeb ac yn adrodd ar Ddatganiad Cyfrifon yr asiantaeth. Mae'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn anfon copi o bob llythyr rheolaeth a gohebiaeth sy'n ymwneud â'r llythyrau hynny at Gyfarwyddwr Cyllid yr Adran. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i fersiynau drafft o lythyrau rheolaeth.

Mae gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol hawl i weld llyfrau a chofnodion yr asiantaeth yn sgil Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983 er mwyn archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y bu'r asiantaeth wrth ddefnyddio'i hadnoddau ac ymgymryd â'i swyddogaethau.

11 Gwasanaethau Cefnogi

Hwylusir gweithrediad yr asiantaeth gan nifer o wasanaethau cefnogi, megis Adnoddau'r Gweithlu, Cyllid, TG, Caffael, Ystadau ac Archwilio Mewnol. Bydd caffael gwasanaethau proffesiynol yn rhwym wrth ganllawiau'r AMC a chanllawiau canolog.

Mae rhai swyddogaethau cefnogi eraill i'w cael o fewn yr asiantaeth, a darperir eraill gan wasanaethau corfforaethol yr AMC. Gyda'r olaf, bydd gan yr asiantaeth Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y gwasanaeth hwnnw gyda'r AMC neu ddarparwr gwasanaeth corfforaethol Gwasanaeth Llysoedd EM.

12 Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar wahân yn nodi perthynas y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn Grŵp Cyflawni Barnwrol yr AMC. Yn fyr, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau perthynol fel a ganlyn:

Polisi barnwrol cyffredinol gan gynnwys polisi ar gyflogau, ffioedd, telerau ac amodau

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn gyfrifol am bolisïau cyffredinol yr AMC mewn perthynas â deiliaid swyddi barnwrol, gan gynnwys eu telerau a'u hamodau. Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am gostau cyflogau a ffioedd deiliaid swyddi barnwrol mewn tribiwnlysoedd a'u costau teithio a chynhaliaeth. O ganlyniad, ymgynghorir â hwy a gwahoddir hwy i gyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu'r polisïau hyn.

Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn arwain pan gysylltir yn flynyddol â'r Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion er mwyn pennu cyflogau barnwrol. Fodd bynnag, ymgynghorir â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd drwy gydol y broses a bydd yn darparu mewnbwn pan fo hynny'n briodol.

Gwasanaethau Cyflogres Barnwrol

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn darparu gwasanaethau cyflogres a phensiynau barnwrol i ddeiliaid swyddi cyflogedig yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am hysbysu'r Gyfarwyddiaeth ar unwaith ynglŷn â'r holl newidiadau sy'n effeithio ar gyflogau barnwrol.

Bydd y system ar gyfer talu ffioedd yn cael ei darparu'n uniongyrchol i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gan Liberata. Mae Adran Gyllid yr AMC yn rheoli perthynas gorfforaethol yr AMC gyda Liberata ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Y berthynas gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod rhagolygon blynyddol cadarn yn ymwneud â'r penodiadau y bydd angen eu gwneud yn cael eu darparu i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn darparu gwybodaeth benodol am ofynion neu swyddi gweigion i'r Comisiwn (gan sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn cael ei hysbysu ac nad yw'r gyfryw wybodaeth yn cael effaith sylweddol ar Gynlluniau Busnes cytunedig).

Gwasanaethau Adnoddau'r Gweithlu a Gwasanaethau Cefnogi Barnwrol

Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Barnwrol yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phenodiadau (adnewyddu, ymddeol) gan ymgynghori â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ôl y galw.

Bydd Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr hefyd yn darparu gwasanaethau i dribiwnlysoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn destun cytundeb ar wahân rhwng yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd a'r Swyddfa Farnwrol.

13 Adnoddau'r Gweithlu

Bydd gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gyfrifoldeb dros:

- sefydlu'r strwythur sefydliadol a rheoli staff
- sicrhau'r cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau AG y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddiaeth Adnoddau'r Gweithlu yr AMC
- gweithredu polisïau a systemau rheoli pobl corfforaethol, gan gynnwys cyflogau a graddfeydd, datblygu a rheoli perfformiad
- rhoi gwybod am faterion, datblygiadau a pholisïau rheoli pobl corfforaethol i staff
- rhoi adborth i Gyfarwyddiaeth AG yr AMC ar effaith polisïau a systemau rheoli pobl, a rhoi cyngor ar ddatblygiadau a allai effeithio arnynt, a
- pennu gofynnion y swyddi sydd i'w llenwi a darparu adnoddau yn ystod camau allweddol y broses dethol.

Cyflwynir gwasanaethau AG drwy fodel 'gwasanaethau a rennir' a ddarperir gan Gyfarwyddiaeth AG yr AMC, gan weithio mewn partneriaeth â rheolwyr yn yr asiantaeth. Mae'r model hwn yn cynnwys:

- canolfan gorfforaethol AG yr AMC, sy'n datblygu strategaeth AG; gosod a chynnal safonau corfforaethol; cefnogi cynlluniau corfforaethol a chynlluniau o dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet; ac sy'n darparu arweiniad mewn meysydd arbenigedd a rheoli asedau AG corfforaethol
- tîm o bartneriaid busnes sy'n gysylltiedig â'r busnes i sicrhau bod anghenion AG yn cael eu bodloni
- tîm arbennig yn y Gyfarwyddiaeth AG sy'n darparu gwasanaethau trafodion i'r asiantaeth megis rheoli recriwtio a dewis a newidiadau i'r gyflogres, a
- tîm arbennig yn y Gyfarwyddiaeth AG sy'n darparu gwasanaethau arbenigol megis ymgynghorwyr lles, hyfforddwyr datblygu a thimau gwaith achos cysylltiadau gweithwyr.

Yn allweddol i'r model gwasanaethau a rennir bydd Partneriaid Busnes AG, swyddogion AG proffesiynol yn yr AMC a aseinir i ran arbennig o'r busnes.

Mae'r Gyfarwyddiaeth AG wedi datblygu strategaeth Adnoddau'r Gweithlu (AG) ar y cyd â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno amcanion yr Adran yn llwyddiannus trwy'i phobl. Bydd y strategaeth AG yn berthnasol i bob rhan o'r Adran a'i hasiantaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Bydd y strategaeth yn darparu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gweithgarwch AG ac yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau cefnogi yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Cefnogir gweithrediad y strategaeth gan systemau, polisïau a phrosesau AG yr Adran.

Bydd y Gyfarwyddiaeth AG yn datblygu trefniadau manwl mewn fframwaith polisi AG (a fydd yn cael ei adlewyrchu mewn llawlyfr gweithwyr a dogfennau cysylltiedig o eiddo'r AMC) a fydd yn berthnasol i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Bydd y Gyfarwyddiaeth hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r asiantaeth ar bolisïau adrannol a deddfwriaeth cyflogaeth. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn diweddaru'r polisïau adrannol hyn i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.

Bydd y polisïau a fydd yn cael sylw yn y fframwaith polisi AG yn cynnwys:

- ymddygiad a threfniadau disgyblu a chwyno
- amrywiaeth
- rheoli gwobrwyo gan gynnwys cyflogau, graddfeydd a buddion
- cysylltiadau diwydiannol
- dysgu a datblygu, a
- lles.

Mae'r Partneriaid Busnes AG ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gweithredu fel cynghorwyr ar faterion sy'n ymwneud â phobl i'r Prif Weithredwr ac i'r uwch dîm rheoli, ac yn ceisio sicrhau bod anghenion busnes AG pob rhan o'r asiantaeth yn cael eu diwallu yn ymarferol. Dylai'r Partneriaid Busnes AG sicrhau bod uwch reolwyr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion pobl wrth ddatblygu Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Busnes a phan wneir penderfyniadau allweddol. Dylent sicrhau bod gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gynllun pobl sy'n helpu i gyflawni amcanion busnes ac sy'n gydnaws ac wedi ei integreiddio â strategaeth AG gyffredinol yr AMC.

Mae'r Partneriaid Busnes AG yn llunio cynlluniau pobl AG i gefnogi'r busnes, gan gynnwys cynllun Dysgu a Datblygu; arwain gyda'r gwaith o gynllunio newid a'i roi ar waith; a chael gafael ar Adnoddau'r Gweithlu priodol. Mae'r Partneriaid Busnes yn cydweithio gydag arbenigwyr AG sy'n gweithio gyda rheolwyr llinell yn yr asiantaeth lle mae angen cefnogaeth leol hirdymor, er enghraifft wrth adolygu anghenion hyfforddi a datblygu lle ceir nifer fawr o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'r drefn gwyno a disgyblu.

Nid yw'r Partner Busnes AG Arweiniol yn aelod o'r bwrdd rheoli, ond disgwylir iddo gynhyrchu adroddiadau i'r bwrdd yn rheolaidd a mynychu cyfarfodydd os gofynnir iddo wneud hynny.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth AG Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sy'n nodi egwyddorion cyffredinol y berthynas rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r asiantaeth. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn seiliedig ar dargedau penodol yn y cynllun busnes Adnoddau'r Gweithlu adrannol, sy'n cael ei lunio'n flynyddol a'i lofnodi'n derfynol gan Fwrdd yr AMC. Adolygir y Memorandwm bob tair blynedd (neu'n gynharach os yw'r blaenoriaethau AG yn newid, er y bydd angen i'r Cyfarwyddwr AG a'r Prif Weithredwr gytuno ar hyn). Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau'r Gweithlu yn yr AMC yn cynnal cyfarfodydd adolygu chwarterol gyda'r Prif Weithredwr.

Cyflogau, Graddfeydd a Buddion

Mae Adran Adnoddau'r Gweithlu yr AMC yn gyfrifol am yr holl bolisïau ar gyflogau a buddion i staff y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, gan gynnwys trafodaethau cyflog, a fydd yn cael eu cynnal mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r undebau llafur. Rhaid i'r AMC a Thrysorlys EM gytuno ar y cylch cyflog. Bydd y Gyfarwyddiaeth AG yn ymgynghori â Bwrdd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ynglŷn â'r cylchoedd cyflog arfaethedig.

Y Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau perthnasol Swyddfa'r Cabinet. Rhaid i'r penodiad gael ei gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor, y Prif Weinidog ac, oherwydd ei gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan Drysorlys EM.

Cytunir ar dâl y Prif Weithredwr yn unol â'r trefniadau ar gyfer aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (Band Cyflog 2). Cytunir ar y dyfarniadau cyflog blynyddol yn unol â'r trefniadau gwobrwyo a rheoli perfformiad ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.

14 Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth

Mae Grŵp e-Gyflwyno yr AMC wedi datblygu strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu drosfwaol ar gyfer yr AMC a pholisïau cysylltiedig ar gyfer Technoleg Gwybodaeth (TG). Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu TG yn ei hasiantaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ystod y broses o drosglwyddo TG dan y Rhaglen Datblygu, Arloesi a Chefnogi (DISC) ac yn y dyfodol ar ôl trosglwyddo. Bydd y Grŵp e-Gyflwyno yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd er mwyn datblygu Strategaeth benodol ar gyfer Systemau Gwybodaeth (SG) a fydd yn cefnogi strategaeth busnes yr asiantaeth. Bydd y Strategaeth SG hon yn gosod map ffyrdd ar gyfer datblygu systemau gwybodaeth a fydd yn cefnogi amcanion y busnes am 3- 5 mlynedd.

Bydd y Strategaeth TG yn cefnogi'r busnes drwy sicrhau:

- bod datblygiadau TG yn cydymffurfio â safonau'r AMC a'r llywodraeth o ran cadernid, capasiti, perfformiad a rhyngweithrediad
- bod datblygiadau TG yn gallu diwallu'r galw am dwf busnes yn y 2/3 blynedd nesaf
- bod y busnes yn bodloni safonau data er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau i gyfnewid data gyda chwsmeriaid a phartneriaid, a
- bod safonau datblygu'n cefnogi'r gwaith o sicrhau gwerth gorau gyda chaffael, cefnogaeth a datblygu yn y dyfodol, yn fwyaf arbennig, cydgyfeirio TG er mwyn galluogi cyflenwyr DISC i gynnig gwell gwerth am arian.

Bydd y Strategaeth SG yn cefnogi'r busnes drwy sicrhau:

- bod systemau cefnogi datblygiadau gyda'r strategaeth fusnes yn cael eu cynllunio i gyflawni'r canlynol:
  - canoli
  - gwaith cefn swyddfa
  - rheoli dogfennau
  - rheoli adnoddau yn electronig, a
  - rheoli cwsmeriaid.
- bod datblygiadau'n rhoi'r hyblygrwydd gorau posibl i'r busnes trwy fynediad at wasanaethau o unrhyw leoliad daearyddol
- y ceir y budd gorau posibl i'r busnes o fuddsoddiadau trwy osgoi dyblygu, ailddefnyddio technoleg, a defnyddio atebion sydd ar gael yn fasnachol
- y ceisir llai o gymhlethdod yn y diffiniad o'r gofynion er mwyn cyflymu'r cam diffinio, lleihau nifer y ceisiadau am newid a gwella ansawdd y SG a'r TG, ac
- y bydd nifer cyffredinol yr atebion mewn meysydd busnes tebyg yn cael eu lleihau wrth ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Cyflwynir gwasanaethau TG i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd trwy fodel o wasanaethau a rennir a ddarperir gan y Grŵp e-Gyflwyno gan weithio mewn partneriaeth â rheolwyr yn y maes. Bydd y Grŵp yn darparu Partner Busnes TG i weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer TG rhwng y Grŵp a'r Tribiwnlysoedd.

Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n disgrifio sut y darperir gwasanaethau TG i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gan y Grŵp e-Gyflwyno a sut y bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r Grŵp yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno newidiadau TG. Mae hefyd yn disgrifio sut y bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r Grŵp yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwelliannau parhaus i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd. Bwriedir i'r Memorandwm osod y cyd-destun ar gyfer y berthynas hon. Mae'n disgrifio cyfrifoldebau'r Tribiwnlysoedd a'r Grŵp, gan gynnwys y cyfrifoldebau isod:

- darparu Gwasanaethau TG, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan gyflenwyr allanol
- cyflwyno rhaglenni a phrosiectau TG, gan gynnwys eu cyfiawnhad busnes, trefniadau llywodraethu, cydymffurfiad â pholisi a safonau, a chyflawni eu hamcanion a'u buddion
- Polisi a Chyfeiriad TG, gyda strategaeth a chynlluniau TG corfforaethol sy'n gydnaws â'r Strategaeth Fusnes a'r cynlluniau cyffredinol, a
- darparu a rheoli Cyllid TG.

Bydd y Memorandwm yn cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf.

15 Adolygu ac amrywio'r Ddogfen Fframwaith

Adolygir y Ddogfen Fframwaith hon yn ffurfiol o leiaf bob tair blynedd gan yr AMC, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, gall yr AMC neu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd gynnig newidiadau unrhyw bryd, a bydd y Gweinidog yn gyfrifol am ymgynghori â phawb sy'n gysylltiedig â'r cynigion ar gyfer newidiadau, gan gynnwys un o Weinidogion y Trysorlys a'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.

Bydd copïau o'r Ddogfen Fframwaith hon ac unrhyw ddiwygiadau dilynol yn cael eu cyhoeddi a'u gosod yn llyfrgelloedd y ddau Dŷ Seneddol. Mae copïau ar gael oddi ar wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Bydd unrhyw gwestiynau ynghylch y dehongliad o'r ddogfen hon yn cael eu hateb trwy gytundeb rhwng y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r AMC. Gwneir unrhyw amrywiadau i ddarpariaethau'r Ddogfen Fframwaith trwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r AMC, gan gynnwys Trysorlys EM os yw'n briodol.

Atodiad 1

Dirprwyaethau Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, fel asiantaeth weithredol a changen gyflenwi i'r AMC, yn cyfrannu at yr adrodd rheolaidd a wneir gan yr AMC yn gyffredinol ar gyllid, risg a pherfformiad.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ceisio cymeradwyaeth, trwy Gyllid Corfforaethol yr AMC, ar gyfer ymrwymiadau gwariant y mae angen cael cytundeb Trysorlys EM iddynt. (Gweler y tabl Awdurdodau Dirprwyedig isod)

O fewn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, ymgymerir ag ymrwymiadau gwariant dan strwythur o ddyraniadau cyllidebol ac awdurdodau dirprwyedig a bennir gan y Prif Weithredwr, gyda chydsyniad Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ôl yr angen, ac yn unol â safonau llywodraethu corfforaethol yr AMC. Bydd y rhain yn darparu dirprwyaeth effeithiol i reolwyr busnes a'r cyfrifoldeb ymarferol uchaf ar eu cyfer yn gyson â sicrwydd a rheolaeth gorfforaethol.

I gefnogi rheolaeth ariannol gorfforaethol yr AMC, bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn rhoi gwybod i Gyllid Corfforaethol yr AMC am y disgwyliadau a'r ymrwymiadau o ran gwariant ar gyfer y dyfodol, a bydd yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i Gyllid Corfforaethol yr AMC am newidiadau sylweddol i'r ymrwymiadau, er mwyn i Fwrdd Rheoli Adrannol yr AMC reoli'r cyllidebu cyffredinol. Bydd y trefniadau'n amrywio o bryd i'w gilydd.

Rheolir gwariant cyfalaf y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn unol â strategaeth fuddsoddi y cytunir arni yn rhagolygol fel rhan o Strategaeth Fuddsoddi lawn yr AMC, a'i diweddaru bob blwyddyn. O fewn hyn, bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn hysbysu Cyllid Corfforaethol yr AMC o ddyddiadau a gwerthoedd disgwyliedig yr ymrwymiadau sydd yn yr arfaeth.

Yn fwy cyffredinol, bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn trafod gyda Chyllid Corfforaethol yr AMC y cynigion sydd, yn ôl gwerth, hyd neu newid i'r strwythur darparu, o arwyddocâd strategol i'r AMC.

Yn amodol ar delerau Cyfrifyddu'r Llywodraeth ac unrhyw Ganllawiau perthnasol eraill a gyhoeddir gan y Trysorlys, mae gan y Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i wario ar eitemau unigol ac eithrio lle bônt yn fwy na'r symiau isod, sy'n adlewyrchu cyfanswm y gost:

Swyddogaeth	Swm ac Amodau
	Awdurdod Dirprwyedig o 1 Ebrill 2006
Eiddo a Phrosiectau Adeiladu	Gwariant Cyfalaf o £10m
Prosiectau TG	Gwariant Cyfalaf o £10m
Prosiectau PFI	Gwerth Cyfalaf o £20m
Grantiau Indemniad	£0.1m
Diddymu	Dim mwy na £0.1m. Adran Gyllid yr AMC i gael gwybod am bob achos newydd a/neu ddadleuol a'r rhai sy'n debygol o arwain at daliad o fwy na £0.1m o fewn y sefydliad ehangach
Colledion	
Taliadau arbennig	
Cydnabyddiaeth	
Digolledu	

Bydd yr awdurdodau dirprwyedig hyn yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

Atodiad 2

O Ebrill 2006 ymlaen bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn darparu gwasanaeth gweinyddol i'r canlynol:
Dyfarnydd i Gofrestrfa Dir EM
Tribiwnlysoedd Apêl (apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant)
Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo
Panel Apeliadau Iawndal Anafiadau Troseddol
Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth
Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru a Lloegr
Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yr Alban
Tribiwnlys Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd
Panel Cydnabod Rhyw
Comisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm
Tribiwnlys Gwasanaethau Mewnfudo
Tribiwnlys Gwybodaeth
Tribiwnlys Tiroedd Cymru a Lloegr
Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl Lloegr
Comisiwn Apêl mewn perthynas â Mynediad at Bathogenau
Tribiwnlysoedd Apeliadau Pensiynau Cymru a Lloegr
Tribiwnlys Rheolydd Pensiynau
Comisiwn Apêl Cyrff Gwaharddedig
Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant
Comisiynwyr Arbennig Treth Incwm
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd
Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig
Tribiwnlys Trafnidiaeth
Tribiwnlysoedd TAW a Thollau